**EITEM AR YR AGENDA: 6**

**PWYLLGOR ARCHWILIO**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**7fed Mehefin 2010**

**Gweithredu'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol – Dadansoddiad Effaith; Polisïau Cyfrifydda; Cynllun Prosiect**

**Adroddiad gan Ken Finch, Trysorydd**

## DIBEN YR ADRODDIAD

1 Diben yr adroddiad yw cyflwyno i'r Aelodau y camau cychwynnol ar gyfer gweithredu'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS), ac mae'n cynnwys: Dadansoddiad Effaith yn nodi'r effeithiau y bydd dyfodiad y Safonau yn eu cael ar gyfrifon yr Awdurdod; newidiadau o ran Polisi Cyfrifydda; a Chynllun Prosiect Gweithredu.

## CYFLWYNIAD

2 Bu newidiadau sylfaenol i'r ffordd y mae'r cyfrifon i gael eu llunio a'u cyflwyno dan y Safonau IFRS. At hynny, rhaid i'r Awdurdod ddangos bod ganddo gynllun cadarn yn ei le er mwyn gweithredu'r newidiadau sydd eu hangen dan y Safonau ar gyfer Datganiad o Gyfrifon 2010/11.

3 Cam nesaf y broses hon yw i'r Aelodau ystyried y Dadansoddiad Effaith; cymeradwyo'r newidiadau i'r Polisïau Cyfrifydda; a chymeradwyo'r Cynllun Prosiect Gweithredu. Mae'r tair dogfen ynghlwm i'r adroddiad hwn fel Atodiadau A i C.

## DADANSODDIAD EFFAITH

4 Mae cyfrifon sy'n cydymffurfio â'r Safonau IFRS yn seiliedig at Safonau Cyfrifydda Rhyngwladol (IAS), Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS), Dehongliadau Adrodd Ariannol Rhyngwladol

(IFRIC) a Phwyllgor Dehongliadau Sefydlog (SIC). Roedd cam cychwynnol y broses yn golygu llunio dadansoddiad effaith i gymharu effeithiau'r safonau rhyngwladol hyn gyda'r hen safonau cyfrifydda oedd yn berthnasol dan 'Ymarfer Cyfrifydda a dderbynnir yn gyffredinol yn y Deyrnas Unedig' (UK GAAP). Dangosir y dadansoddiad yn Atodiad A, gan dynnu sylw at y safonau hynny a fydd yn cael effaith fawr.

## POLISÏAU CYFRIFYDDA

5 Bydd rhai o'r Polisïau Cyfrifydda yn newid er mwyn adlewyrchu'r newidiadau yn y ffordd y caiff y cyfrifon eu llunio dan y safonau adrodd newydd. Caiff y Polisïau Cyfrifydda newydd sydd eu hangen dan Safonau IFRS eu dangos yn Atodiad B, a bydd y rhain yn disodli rhai o'r hen bolisïau. Bydd y polisïau newydd hyn yn dod i rym ar 1 Ebrill 2010.

## CYNLLUN PROSIECT

6 Mae'r Cynllun Prosiect sydd yn Atodiad C yn nodi'r cynnydd hyd yn hyn mewn perthynas â gweithredu'r Safonau IFRS ar gyfer cyfrifon yr Awdurdod, ac mae'n amlinellu'r camau ychwanegol sydd i'w cymryd er mwyn sicrhau y symudir drosodd yn llyfn. Caiff y Cynllun Prosiect ei ddiweddaru'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod pob cam yn cael ei gwblhau ar y dyddiad cywir. Mae'r ddogfen yn dangos i'r archwilwyr allanol, KPMG, fod gan yr Awdurdod gynlluniau cadarn yn eu lle er mwyn gweithredu'r Safonau IFRS yn llwyr ar gyfer Datganiad o Gyfrifon 2010/11 fel sy'n ofynnol dan y rheoliadau statudol.

## ARGYMHELLION

7 Argymhellir bod y Pwyllgor Archwilio yn nodi:

(i) y Dadansoddiad Effaith yn Atodiad A;

ac yn cymeradwyo'r elfennau allweddol canlynol sydd yn yr adroddiad hwn, ac yn argymell y rhain i'r Awdurdod Tân:

(ii) y Polisïau Cyfrifydda sydd yn Atodiad B;

(iii) y Cynllun Prosiect sydd yn Atodiad C.